Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Mae Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru yn cefnogi cymunedau i greu a buddsoddi mewn busnesau sy'n cyflawni diben cymunedol.

Rhagair

Rydym ni yn Cwmpas rydym wedi ymrwymo i newid economaidd a chymdeithasol. Mae ein prosiect Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru yn enghraifft o'r gwahaniaeth y gallwn ni gwneud er lles ein cymunedau.

Wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru am dair blynedd, lansiwyd y prosiect ym mis Hydref 2020 i gefnogi ein cymunedau i greu a buddsoddi mewn busnesau sy'n gwasanaethu pwrpas cymunedol.

Dros y cyfnod hwn, mae'r prosiect wedi cefnogi 18 cymuned i ddatblygu cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol, gan gynnwys Cân-y-Môr, enillydd gwobr Menter Gymdeithasol y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2023. Mae 83% o'r prosiectau rydym wedi cefnogi wedi'u lleoli mewn neu o fudd uniongyrchol i gymunedau ag amddifadedd uchel.

Mae nifer o gymunedau ledled Cymru wedi wynebu heriau economaidd a newidiadau cymdeithasol, sydd yn arwain at golli rheolaeth dros asedau lleol hanfodol. Drwy adennill yr asedau hyn drwy gynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol, gall cymunedau adennill ymreolaeth dros eu hadnoddau lleol, a'u galluogi i ddelio efo anghenion a blaenoriaethau sy'n benodol i'w cymuned. Mae'r broses hon yn hybu hunangynhaliaeth economaidd, yn cadw ac yn hyrwyddo hunaniaeth a threftadaeth Gymreig, ac mae'n meithrin ymdeimlad o berchnogaeth, balchder, a chydweithio ymhlith aelodau'r gymuned.

Yn ystod y tair blynedd y mae Cwmpas wedi bod yn darparu'r prosiect Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru rydym wedi cefnogi dros 500 o bobl, a 18 o gymunedau i godi cyfanswm o £4,959,840 ledled Cymru i adennill asedau a hybiau cymunedol, er budd pobl leol. Trwy adennill asedau cymunedol, mae'r cymunedau hyn yn mynnu rheolaeth dros eu tirwedd economaidd a diwylliannol, gan sicrhau bod datblygiad yn cyd-fynd â gwerthoedd a dyheadau'r bobl, a hyrwyddo dyfodol cydnerth i gymunedau Cymreig.

Yma yn Cwmpas, credwn y dylai ein heconomi a'n cymdeithas weithio'n wahanol, gan roi pobl a'r blaned yn gyntaf. Mae'r prosiect trawsnewidiol hwn nid yn unig yn ymgorffori ein gwerthoedd, ond hefyd yn gweithredu fel ffagl gobaith am ddyfodol lle gall buddsoddi ar y cyd, rhannu cyfrifoldeb, ac unigolion sydd wedi'u grymuso cydweithio i adeiladu cymunedau bywiog, cynaliadwy a gwirioneddol ysbrydoledig i bawb.

Wrth i'r prosiect ddod i ben, mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r cyfle i ni edrych yn ôl a dathlu'r prosiectau ysbrydoledig y mae Cwmpas wedi'u cefnogi i baratoi'r ffordd ar gyfer newid cadarnhaol, un gymuned ar y tro.

Bethan Webber
Prif Weithredwr Cwmpas

rydym wedi cefnogi dros 500 o bobl, a 18 o gymunedau i godi cyfanswm o £4,959,840 ledled Cymru i adennill asedau a hybiau cymunedol, er budd pobl leol.

Hannah Morris
Ymgynghorydd Busnes Cyfranddaliadau Cymunedol

Hannah yw Ymgynghorydd Busnes Cyfranddaliadau Cymunedol y Prosiect Cydnerthedd Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru, yn cefnogi a chynghori cymunedau sy'n anelu at gynnal prosiectau cyfranddaliadau cymunedol. Mae Hannah yn cefnogi'r cymunedau hyn drwy bob cam o'r broses; o ymgysylltu â'r gymuned, cynllunio busnes, a datblygu dogfennau.

Mae Hannah wedi gweithio yn y trydydd sector am dros 20 mlynedd yn cefnogi datblygiad pobl a chymunedau, gyda phrofiad mewn llywodraethu, ariannu a rheoli gwirfoddolwyr.

Mae hi'n fam brysur i 2 sydd wrth ei bodd yn yr awyr agored pan mae'n sych, yn cyfarfod â phobl, ac yn dysgu oddi wrthyn nhw.

Thomas James
Cydlynydd Prosiect Cydnerthedd Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Tom yw Cydlynydd Prosiect Cydnerthedd Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru, rôl sy'n sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn esmwyth. Mae hyn yn cynnwys dylunio gwefannau a threfnu gweithdai, i reoli gweinyddiaeth y prosiect a chreu adnoddau; i gyd i gynorthwyo grwpiau ledled Cymru i ddiwallu anghenion eu cymunedau.

Mae Tom yn frwd dros gefnogi eraill i gyflawni mawredd yn eu bywydau personol a'u cymuned.

cwmpas

Prosiect Gwydnwch
Cyfranddaliadau Cymunedol Cymrut

Astudiaeth Achos:
Y Tŷ Gwyrdd

Siop ddiwastraff a hyb cymunedol ffyniannus yn dathlu ei blwyddyn gyntaf ar ôl llwyddiant cynnig cyfranddaliadau cymunedol: Gydag arweiniad gan Cwmpas maent yn cynllunio ail gynnig cyfranddaliadau cymunedol i brynu cartref parhaol erbyn hyn.

Codi Arian

Codwyd

£4,959,840

ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol yng Nghymru (£50k ar gyfartaledd fesul cynllun)

Codwyd

£3,629,710

o arian cyfatebol i gynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol (20% ar gyfartaledd fesul cynllun)

Demograffeg

15

Cynllun Cyfranddaliadau Cymunedol wedi'u lleoli mewn, neu yn gwasanaethu, cymunedau difreintiedig.

4,857

o bobl wedi buddsoddi mewn cynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol

cwmpas

Prosiect Gwydnwch Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Astudiaeth Achos: Havards

Cais cynllun cyfranddaliadau cymunedol i achub hen siop nwyddau metel a hyb cymunedol: Mae dyfodol siop nwyddau metel boblogaidd, sydd wedi bod wrth galon y gymuned yn Sir Benfro ers yr 1800au, wedi'i hachub gan berchnogaeth gymunedol – gyda gor-ŵyr y perchennog gwreiddiol yn rhan o'r cynllun.

cwmpas

Gwirfoddolwyr

566

o wirfoddolwyr (ddim yn gyfarwyddwyr) â chynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol

152

o unigolion wedi dod yn gyfarwyddwyr gwirfoddol gyda chynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol

Prosiect Gwydnwch
Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Astudiaeth Achos: Tafarn Dyffryn Aeron

Mae Tafarn Dyffryn Aeron yn gosod y safon ar gyfer llwyddiant budd cymunedol. Mae'r tafarn cymunedol wedi cael ei phrynu gan drigolion lleol – gyda'r sêr Hollywood Matthew Rhys a Rhys Ifans ymysg y rhai sydd wedi buddsoddi mewn cyfranddaliadau – ac mae'n mynd o nerth i nerth erbyn hyn.

cwmpas

Hyfforddiant

18

o gymunedau wedi datblygu cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol gyda chymorth Cwmpas

177

o bobl, gan gynnwys canolwyr, cyllidwyr ac asiantaethau cefnogaeth busnes wedi cymryd rhan mewn Dosbarthiadau Meistr Cyfranddaliadau Cymunedol

303

o unigolion wedi cymryd rhan mewn sesiynau neu ddigwyddiadau hyfforddi i uwchsgilio'r Rhwydwaith Cyfranddaliadau Cymunedol

7

o grŵpiau cyfranddaliadau wedi mabwysiadi'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol.

22

o hyrwyddwyr cyfranddaliadau wedi'u sefydli, sy'n gallu mentora cymheiriaid i gynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol eraill

Cwmpas

Ffôn: **0300 111 5050**
Wefan: **www.cwmpas.coop**
E-bost: **info@cwmpas.coop**
Trydar/X: **@cwmpas_coop**

A elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan y Ddeddf cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, fel print bras neu braille, ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg a Chymraeg a'n nod yw darparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.